CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I.
Pennaeth Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol
Head of Service Economic and Community Regeneration

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park
LLANGEFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7XA

ffôn / tel: (01248) 752431/2435
ffacs / fax: (01248) 752192

Gofynnwch am / Please ask for:
E-bost / Email: AledPrysDavies@anglesey.gov.uk
Ein Cyf / Our Ref: APD/C3/780.
Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: 30 January 2014

Annwyl Syr / Madam

**Ymchwiliad i Gyfleoedd Cyllid yr UE 2014-20**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Busnes a Menter Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) i mewn i "*Cyfleoedd Cyllid yr UE 2014-20*".

Mae gan CSYM brofiad o ddatblygu a gweithredu prosiectau a ariennir gan yr UE ers 1996. Ar hyn o bryd mae gan CSYM bortffolio cymysg o Ariannu Strwythurol, CDG (Cynllun Datblygu Gwledig) a phrosiectau Interreg IVA, ac mae wrthi'n dylanwadu a pharatoi ymyriadau posibl ar gyfer y cyfnod Rhaglen yr UE 2014-20.

Barn CSYM ar Gyfleoedd Ariannu UE (2014-2020), y tu hwnt i'r prif ffrydiau, y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a'r Cynllun Datblygu Gwledig yw:

1) Hyd yma, bu diffyg arweinyddiaeth, strategaeth a gweledigaeth ar gyfer y defnydd effeithiol o gyfleoedd Cyllid yr UE yng Nghymru (y tu hwnt i Gronfeydd Strwythurol a'r Cynllun Datblygu Gwledig). Mae cyfleoedd sydd yn ychwanegu gwerth wedi cael eu colli gan sefydliadau ac ardaloedd gofodol ar draws y wald. Mae'r Rhaglen Llywodraethu wedi creu cyfeiriad clir ar gyfer y wlad, a byddem yn awyddus i weld Llywodraeth Cymru (mewn partneriaeth) yn chwarae rôl fwy arweiniol er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio ar gyfleoedd 2014-2020.

2) Nid oes un pwynt cyswllt cydnabyddedig o fewn Cymru i ddarparu cyngor ac arweiniad ar gyfleoedd ariannu'r UE. Mae hyn yn rhwystr y dylid ei oresgyn yn ystod y cyfnod Rhaglennu nesaf.

3) Mae Cymorth Technegol yr UE yn ei gwneud yn anodd i Swyddogion UE o fewn Awdurdodau Lleol i neilltuo amser a dilyn cyfleoedd cyllido. Bydd hyn eto yn rhwystr rhwng 2014-2020.

4) Mae yna ganfyddiad, stigma a diwylliant fod yr ymweliadau tramor (sydd yn ffurfio rhan annatod o'r prosiectau hyn) yn wastraffus ac nid ydynt yn ychwanegu gwerth digonol. Mae hyn yn cyfyngu ymgysylltu a datblygu cynigion prosiect.

5) Byddai ymgysylltu yn ehangach mewn Cyfleoedd Cyllido yr UE yn helpu i godi proffil ac ymwybyddiaeth gyffredinol o Gymru, a'i hardaloedd ar draws yr UE.

6) Mae llawer o Raglenni'r UE (yn enwedig Rhaglenni Cydweithio Tiriogaethol) yn creu allbynnau meddal (gyda gwerth ychwanegol yn aml yn aneglur). Mae angen i sefydliadau cydnabod a gwerthfawrogi'r allbynnau meddalach os oes mwy o amser ac adnoddau yn cael eu neilltuo.

7) Ychydig iawn o rannu / gyhoedduso arfer da sydd yna ar draws Cymru i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd a manteision posibl (a chynyddu diddordeb a defnydd yn y dyfodol).

8) Mae cyfradd ymyrraeth yr UE yn gynnig deniadol a dylai aros ar lefelau tebyg i annog cyfranogiad.

9) Mae Rhaglenni Cydweithio Tiriogaethol yn aml yn dod ar draws problemau (e.e. oedi taliadau oherwydd trefniadau llywodraethu cymhleth sy'n gysylltiedig â phartneriaid wedi eu lleoli mewn gwledydd gwahanol), ac yn creu risgiau i sefydliadau. Gallai'r dull gweithredu defnyddiwyd gan brosiectau Celtic Wave, Interreg IVA (h.y. Partner Arweiniol yn ymgymryd â'r holl drafodion ariannol ar ran y partneriaid) gael ei ymestyn ymhellach yn y dyfodol.

10) Dylid darparu mwy o gymorth i sefydliadau llai sydd yn cymryd rhan mewn prosiectau o'r fath (e.e darpariaeth ar gyfer taliadau ymlaen llaw er mwyn hwyluso llif arian) er mwyn cynyddu cyfranogiad.

Rydym yn gobeithio y bydd y sylwadau yn berthnasol i'r Pwyllgor ac yn edrych ymlaen at ystyried canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion.

Yn gywir,

**Dylan J. Williams**
**Pennaeth Gwasanaeth – Adfywio Economaidd a Chymunedol**